# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **18 Ionawr 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd** |

**Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019 ("y Rheoliadau") - cadarnhaol -** dyddiad gosod disgwyliedig

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (EC) 1924/2206 - gosod y fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i fusnesau gydymffurfio ag ef os am wneud honiadau ynghylch maeth neu iechyd er mwyn sicrhau bod yr honiadau yn gywir ac nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain.
- Rheoliad (EC) 353/2008 - sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer ceisiadau i awdurdodi honiadau iechyd.
- Rheoliad (EC) 2013/63 - mabwysiadu canllawiau i weithredu amodau penodol ar gyfer honiadau iechyd a osodir.
- Rheoliad (EC) 907/2013 - gosod rheolau ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â defnyddio disgrifyddion cyffredinol.
- Rheoliad (EC) 984/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at leihau afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1024/2009 - awdurdodi a gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd yn cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1025/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1167/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1168/2009 - gwrthod awdurdodi honiad iechyd ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EU) 375/2010 - gwrthod awdurdodi honiad iechyd ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.

- Rheoliad (EU) 382/2010 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1925/2006 - pennu pa fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill y gellir eu hychwanegu at fwydydd; gosod sut y gall sylweddau newydd gael eu hasesu

a'u cymeradwyo; ac amlinellu gofynion cyfansoddiadol a labelu ar gyfer bwydydd sydd â sylweddau wedi'u hychwanegu atynt.

- Rheoliad (EC) 307/2012 - sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer defnyddio pwerau i atal, cyfyngu, neu graffu ar sylwedd.
- Rheoliad (EU) 489/2012 a oedd yn sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer defnyddio Erthygl 16 o Reoliad (EC) 1925/2006 ar ychwanegu fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill at fwydydd yn cael ei ddiddymu.
- Rheoliad (EC) 609/2013 - gosod rheolau cyffredinol ynghylch cyfansoddiad a labelu ar bedwar categori o fwyd sef fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, grawnfwydydd a bwydydd babanod wedi'u prosesu, bwyd at ddibenion meddygol arbennig (bwydydd angenrheidiol ar gyfer rheoli cyflyrau meddygol penodol) a chynnyrch amnewid deiet yn llwyr mewn deietau cyfyng o ran ynni er mwyn rheoli pwysau.

- Rheoliad (EC) 983/2009 - gosod gofynion ar sylweddau y gellir eu hychwanegu at ddibenion maeth penodol mewn bwydydd ar gyfer defnydd maeth arbennig.
- Rheoliad (EC) 953/2009 - gosod gofynion ar sylweddau y gellir eu hychwanegu at ddibenion maeth penodol mewn bwydydd ar gyfer defnydd maeth arbennig.
- Rheoliad Dirprwyedig (EU) 2016/128 - ategu Rheoliad (EU) 609/2013 o ran gofynion cyfansoddiad a gwybodaeth benodol ar gyfer bwydydd at ddibenion meddygol arbennig.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru ddarparu cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ar eu rhan.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ymwneud â maeth. Bydd y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau amddiffyn iechyd pobl nac i safon uchel y bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl mewn nwyddau a gynhyrchir yn y wlad hon a nwyddau sy'n cael eu mewnforio.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol megis diddymu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac unrhyw Aelod-wladwriaethau eraill, ac yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae'r prif gywiriadau sy'n cael eu cynnig gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys trosglwyddo'r swyddogaethau cynghori gwyddonol a ysgwyddir ar hyn o bryd gan Awdurdod Diogelwch

Bwyd Ewrop i gyrff priodol sydd eisoes yn bodoli yn y DU neu i Bwyllgor Honiadau Iechyd a Maeth newydd yn y DU. Bydd y pwyllgor newydd hwn yn cael ei sefydlu dan Public Health England, ac fe fydd yn gyfrifol am gadarnhau honiadau yn wyddonol a darparu cyngor i bedair gweinyddiaeth y DU am unrhyw honiadau iechyd a maeth a wneir yn y DU ar ôl ymadael.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/kv1TC7iv

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.